**Ieuan Wyn Jones AC/AM**
**Dirprwy Brif Weinidog /Deputy First Minister**

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref: WAQ 55227 and 55228
Darren Millar AC
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

13 Ionawr 2010

Annwyl Darren,

Yn dilyn yr ateb dros dro a gawsoch i Gwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad 55227 a 55228, gallaf yn awr roi ateb llawn i chi.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cwrdd yn rheolaidd ag Ofgem i drafod y polisïau a'r rhaglenni y maen nhw'n gyfrifol am eu rheoleiddio.

Cyhoeddwyd cynigion cychwynnol Ofgem ar gyfer yr Adolygiad Rheoli Prisiau Dosbarthu Trydan (DPCR5) ar 3 Awst 2009. Mae'r adolygiad yn pennu'r refeniw ar gyfer Gweithredwyr y saith Rhwydwaith Dosbarthu, sy'n gyfrifol am ddosbarthu trydan mewn 14 ardal drwyddedig ym Mhrydain. Y cynigion cychwynnol yw cam diweddaraf yr adolygiad fydd yn penderfynu faint y bydd cwmnïau'n cael ei godi dros y cyfnod o bum mlynedd rhwng Ebrill 2010 a Mawrth 2015.

Wrth gynnal yr adolygiad, rhaid ystyried materion cymhleth fel dibynadwyedd y rhwydwaith, y cyflenwad ynni isel ei garbon yn y dyfodol a rhoi gwerth eu harian i gwsmeriaid.

Bydd swyddogion fy adran yn gweithio gyda swyddogion Adran yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, sy'n cydweithio'n glos ag Ofgem i gloriannu effaith y setliad ar weithredwyr y rhwydweithiau dosbarthu yng Nghymru ac ar dwf economaidd a swyddi.

**Ieuan Wyn Jones**
**Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth**
**Minister for the Economy and Transport**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Ffacs * Fax 029 2089 8198
PS.DeputyFirstMinister@wales.gsi.gov.uk